

PRIFYSGOL
Glyndŵr
Wrecsam

Wrexham
Glyndŵr
UNIVERSITY

PRIFYSGOL GLYNDŴR

ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL

**AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 GORFFENNAF 2019**



ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF 1142048

CYNNWYS

Rhagair	2
Croeso gan yr Is-ganghellor	3
Uchafbwyntiau'r brifysgol yn gryno	5
Gwybodaeth am yr elusen	7
Adroddiad gan y Bwrdd Llywodraethwyr	
• Adolygiad Ariannol a Gweithredol	10
• Datganiad Budd Cyhoeddus	14
Cyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr	17
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol	18
Llywodraethwyr ac Ymddiriedolwyr y Brifysgol	21
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	22
Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu	25
Datganiadau Ariannol	34

RHAGAIR

Gyda'n cenhadaeth i "ysbrydoli a galluogi: trawsnewid pobl a lleoedd a hybu llwyddiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol" mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn sefydliad angori i'r rhanbarth, yn cynnig cymuned gefnogol i'n dysgwyr ac wedi ymrwmo i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd Gogledd Ddwyrain Cymru a hybu llwyddiant a chyflogadwyedd ein graddedigion. Rydym ni'n ceisio sicrhau bod y cyfleoedd a gynigir trwy addysg uwch ar gael i bawb sy'n medru elwa o hyn. Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn parhau i fod ar y brig yng Nghymru a Lloegr o ran cynhwysiant ac yn gyntaf yng Nghymru a Lloegr ar gyfer nifer y myfyrwyr anabl.

Rydym ni, fel llawer o sefydliadau addysg uwch eraill, yn wynebu nifer o feysydd ansicr yn yr amgylchedd allanol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, ac a fydd yn cyflwyno heriau ariannol. Mae materion o'r fath yn cynnwys: effaith potensial yng Nghymru yn deillio o Adolygiad Cyllid Myfyrwyr AUGAR, disgwylir penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr argymhellion yn fuan; effaith y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd ('Brexit') ar yr economi, demograffeg ein rhanbarth ac, fel sy'n cael ei deimlo eisoes i ryw raddau, yr effaith ar nifer y myfyrwyr Undeb Ewropeaidd sy'n dewis astudio gyda ni; ac, yn olaf, cynnydd yn ein rhwymedigaethau pensiwn, yn enwedig y penderfyniad diweddar yn y llys (McCloud) ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran yn deillio o drefniadau trosglwyddo pensiwn y sector cyhoeddus, y mae angen i ni eu cydnabod yn awr yn ein datganiadau ariannol. Rydym ni hefyd yn aros am gyhoeddi deddfwriaeth i ddiwygio cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol yng Nghymru, yn deillio o gynigion polisi Llywodraeth Cymru: Budd Cyhoeddus a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig.'

Fodd bynnag, rydym ni wedi rhagweld effaith potensial rhai o'r ansicrwyddau hyn ac wedi cynnal gwaith cynhwysfawr i adolygu ein strwythurau a'n costau, arallgyfeirio'n gweithgareddau academiaidd i sicrhau ffrydiau refeniw newydd, mabwysiadu dull hyd yn oed mwy trwyadl o ddadansoddi, cynllunio a rheoli risgiau ac adolygu'r cwricwlwm yn gyson i sicrhau bod ein rhaglenni'n parhau'n atyniadol i ddarpar fyfyrwyr a sicrhau bod ein myfyrwyr yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr. Rydym ni'n rhagweld y bydd y mentrau hyn yn sicrhau bod y brifysgol yn parhau'n gydnerth a chynaliadwy i'w myfyrwyr, ei staff a rhanddeiliaid eraill i'r dyfodol.

Mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu gwarged gweithredol am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, o £1,286k cyn ystyried tâl amhariad un tro'n unig i ased sydd i'w waredu ac ystod o addasiadau heb fod yn rhai arian parod yn ymwneud ag atebolrwyddau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a grybwyllwyd yn gynharach, y mae'n ofynnol i'r holl brifysgolion sy'n gweithredu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei wneud. Canlyniad hyn yw diffyg net ar gyfer 2018/19 o £615k. Rydym ni'n parhau mewn sefyllfa arian parod cadarnhaol ac yn cynyddu'r cronfeydd arian parod wrth gefn yn raddol. Mae'r canlyniadau rhagorol hyn oherwydd gwaith caled ac ymrwymiad yr Is-ganghellor a'i thîm.

Bu llawer o uchafbwyntiau rydym ni'n falch ohonynt yn ystod y flwyddyn, a amlinellir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon; yn eu plith canlyniad llwyddiannus yr Adolygiad Gwella Ansawdd gan yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd a chyflawniad symud i fyny 45 lle yng ngwobrau WhatUni Student Choice sy'n ddathliad blynyddol y prifysgolion gorau yn y Deyrnas Unedig ar sail pleidleisiau gan fyfyrwyr. Mae ein Strategaeth Campws 2025 yn parhau'n ffocws allweddol gyda nifer o brosiectau uwchraddio wedi'u cynnal eisoes i gyfrannu at wella'r ystad a'r amgylchedd dysgu i'n myfyrwyr ni.

Mae seremonïau graddio'r Brifysgol yn fy atgoffa'n rheolaidd am wir bwrpas Prifysgol. Mae'r cannoedd o raddedigion sy'n croesi'r llwyfan bob blwyddyn wedi buddsoddi cryn amser, ymdrech ac arian i ennill eu dyfarniadau. Mae gweld eu balchder, a balchder eu teuluoedd a'u ffrindiau, yn un o uchafbwyntiau fy mlwyddyn i.

Y tu ôl i lwyddiant y Brifysgol mae ymroddiad ac ymdrechion ei staff, ei myfyrwyr a'i llywodraethwyr, a hoffwn dalu teyrnged iddynt i gyd am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn.

Maxine Penlington OBE
Cadeirydd y Llywodraethwyr

CROESO GAN YR IS-GANGHELLOR

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, 2018-19, rydym ni wedi gweld datblygiadau aruthrol yn y brifysgol, o ran buddsoddi mewn cyfleusterau newydd a darpariaeth academiaidd newydd.

Yn gyntaf, crynodeb o'r cynnydd a wnaed o ran ein rhaglen gweddnewid Campws 2025. Yn dilyn agor ein gwagle cymdeithasol a dysgu cydweithredol newydd, Yr Astudfa, yng Ngwanwyn 2018, rydym ni wedi ychwanegu gwagle cyffrous arall sy'n agored i fyfyrwyr ac ymwelwyr: Y Galeri. Caiff pobl ymlacio mewn amgylchedd cyffyrddus, cyfarfod gyda chyd-fyfyrwyr a staff academiaidd a defnyddio adnoddau technoleg, gyda gwaith celf creadigol wedi'u gynhyrchu gan rai o'n graddedigion gorau yn gefndir i'r lle. Rydym ni hefyd wedi uwchraddio ystafelloedd darlithio ac ystafelloedd dosbarth llai ar hyd y coridor B cyfan, a bellach mae eu safon yn uchel iawn ac mae hyn yn rhoi awch i ni fuddsoddi rhagor.

Er mwyn parhau i wireddu rhaglen Campws 2025 gwnaethom gyflwyno ystod o geisiadau cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cafodd ein holl gynigion yn gysylltiedig â datblygu'n campysau eu cymeradwyo. Cafodd un cynnig i waredu rhan o'n safle prif gampws ym Mhlas Coch, nad oes ei angen mwyach, ei gymeradwyo hefyd. Fodd bynnag, nid yw gwaredu dau safle arall yn Wrecsam, gyda'r tir wedi'i glustnodi ar gyfer datblygu tai, wedi'i gymeradwyo eto ac mae angen i ni fynd â'r ddau gais cynllunio yma trwy'r broses apêl. Y dadleuon allweddol sy'n sylfaen i'r geisiadau yw, yn gyntaf, byddant yn cynhyrchu derbynion cyfalaf pwysig y medrwn eu hailfuddsoddi yn ein cyfleusterau, gan roi profiad rhagorol i fyfyrwyr. Nid yw buddsoddi yn ein hystad yn rhywbeth ar gyfer moethusrwydd yn unig. Mae'n rhywbeth y dylid bod wedi'i wneud ers cryn amser ac mae'n hanfodol ar gyfer cadw'r amgylchedd dysgu rydym ni'n ei gynnig i'n myfyrwyr yn gyfoes a chyfredol, fel ein bod ni'n bodloni eu disgwyliadau, cyfoethogi eu dysgu ac yn eu paratoi ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol y gorau y gallwn ni. Yn ail, gall gwaredu ein safleoedd nad oes eu hangen mwyach gyfrannu at dai cynaliadwy i'r dref a'r rhanbarth ehangach, lle nodwyd prinder arwyddocaol.

Ym mis Mawrth 2019, cawsom ymweliad llwyddiannus iawn gan banel yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch fel rhan o'u cylchred Adolygiad Gwella Ansawdd. Yn ogystal â bodloni'r meini prawf sylfaenol yn gyffyrddus, derbyniwyd clod am ddwy elfen hefyd. Gwnaeth y panel ein canmol am "y monitro bwriadol ac effeithiol a chefnogaeth i fyfyrwyr unigol mewn modd personol er mwyn hwyluso eu datblygiad academiaidd", ac am "lunio a rhannu set gynhwysfawr o strategaethau cydlynus i gefnogi gwella profiad dysgu'r myfyrwyr." Mae hynny'n dangos hyder sylweddol yn ansawdd ein darpariaeth academiaidd, a byddwn yn medru arddangos bathodyn *Sicrwydd Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch* am y pum neu chwe mlynedd nesaf. Mae hyn yn defnyddiol wrth gyfathrebu ein proffil a gellir ei ddefnyddio i'n gwahaniaethu oddi wrth brifysgolion yn Lloegr, lle nad oes cynllun o'r fath mwyach. Rydym ni wedi elwa o hyn eisoes – cawsom negeseuon o longyfarchiadau gan rai o'n partneriaid rhyngwladol ychydig ddyddiau ar ôl rhoi'r bathodyn ar ein gwefan.

Rydym ni wedi gweld lansiad llwyddiannus rhaglenni academiaidd newydd fel Ffysiotherapi (y cyntaf yng ngogledd Cymru), Gradd Brentisiaeth mewn Cyfrifiadureg a Pheirianneg, ac ystod o raglenni lefel Meistr ar-lein, sy'n denu myfyrwyr o bob cwr o'r byd i gofrestru.

Mae'r brifysgol a'r sector Addysg Uwch ehangach yn wynebu heriau ariannol. Rydym ni'n gweld cynnydd yn ein costau, rhai ohonynt y tu hwnt i'n rheolaeth ni, fel cyfraniadau pensiwn gorfodol a ffioedd cyfrifyddu. Felly rydym ni wedi cyflwyno mesurau rhagweithiol a chyfrannol fel bo'r Brifysgol yn parhau'n gynaliadwy fel darparydd gwerthfawr addysg uwch ac ymchwil. Mae hyn wedi golygu peth ailstrwythuro ac adolygiadau effeithlonrwydd wedi'u targedu. O ganlyniad i hyn mae'r brifysgol wedi llwyddo i sicrhau

gwarged gweithredol iach unwaith eto, er ein bod ni'n gweld peth ohono'n cael ei erydu gan eitemau eithriadol ar ffurf addasiadau nad ydynt yn rhai arian parod oherwydd y sefyllfa sy'n wynbeu gwahanol gronfeydd pensiwn.

Fel yr amlinellodd y Cadeirydd yn nhudalennau agoriadol yr adroddiad blynyddol hwn, rydym ni'n canfod ein hunain mewn cyfnod o ansicrwydd mawr. Mae goblygiadau Brexit, newidiadau posibl i gyllido addysg uwch a deddfwriaeth newydd yn berthnasol i'r cyngor cyllido newydd arfaethedig ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru yn rhai o'r datblygiadau sy'n rhoi digonedd i bawb yn y sector feddwl amdano. Rwy'n hyderus, fodd bynnag, fod y brifysgol mewn sefyllfa gadarn i wynebu beth bynnag a ddaw.

I gloi, bu'n flwyddyn ddynamig, boddhaol a heriol hefyd, ac heb unrhyw amheuaeth bydd 2019/20 yn dod â llawer o ddatblygiadau newydd hefyd.



Yr Athro Maria Hinfelaar
Is-ganghellor a Phrif Weithredwr

UCHAFBWYNTIAU'R BRIFYSGOL YN GRYNO

Gwnaed gwaith rhagorol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ac thynnir sylw at rai o'r cyflawniadau, unigol ac fel sefydliad, yma.

Mae'r Brifysgol yn parhau'r un fwyaf gynhwysol yn gymdeithasol yng Nghymru a Lloegr¹ a gwnaeth fynd i fyny 45 lle yng ngwobrau WhatUni Student Choice. Gwnaethom ddod yn aelod swyddogol y rhaglen partneriaid Pwerdy Gogledd Lloegr ynghyd â thri sefydliad arall o Gymru.

Roeddem ni'n falch o ennill nifer o wobrau cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Enillodd Glyndŵr Innovations, a leolir yng Nghanolfan OpTIC, Llanelwy, wobr Cynnyrch Arloesol y Flwyddyn yng Ngwobrau Technoleg Cymru. Gwnaeth yr Uwch Ddarlithydd Cyfrifiadureg, Richard Hebblewhite, ennill teitl Cyfrannwr Cymunedol y Flwyddyn yng Ngwobrau Cronfa Gemau'r Deyrnas Unedig ar ôl cael ei enwebu am ei gyfraniad eithriadol i ddatblygu'r diwydiant gemau yn lleol a rhanbarthol. Gwnaeth cynnyrch arloesol tîm datblygu gemau Richard, Enterprise Lounge, ennill y wobr Canolbwynt Lleol y Flwyddyn Tranzfuser, a gwnaeth Static Shell Studios, stiwdio gemau wedi'i llunio gan gyn-fyfyrwyr Glyndŵr ennill y wobr Tranzfuser, sy'n rhaglen ddoniau ar gyfer y diwydiant datblygu gemau. Roeddem ni wrth ein boddau bod ein Undeb Myfyrwyr wedi ennill teitl Y Tîm Gorau yng Nghymru yng ngwobrau Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a dyfarnwyd y nod Ansawdd Undeb Myfyrwyr iddi hefyd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr y Deyrnas Unedig.

Penodwyd Deon y Gyfadran Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd, Simon Stewart, yn aelod o fwrdd y Bwrdd Gwaith Ieuencid, ac roedd Dr Wulf Livingston, Darllenydd Gwyddor Cymdeithasol, ymhlith pum prif siaradwr allweddol a gynhwyswyd mewn trafodaeth panel yng nghynhadledd gyntaf 'Alcohol Change UK.'

Mae nifer o'n myfyrwyr wedi cael ystod o lwyddiannau, yn cynnwys: myfyriwr Celf Gemau, Sophie-Elisabeth Martinez Nightingale, yn arddangos ei gwaith yn un o wyliau celf mwyaf arobryn Siapan; Paul Jauncey, wnaeth astudio Therapïau Ategol, yn cael ei enwi'n 'Fyfyrwr y Flwyddyn' gan y Ffederasiwn Therapïddion Cyffannol; Jose Maria Ortega, a raddiodd yn 2018, yn dychwelyd i'r Brifysgol gyda chwmmi Bentley Motors i roi cyngor gyrfa i fyfyrwyr cyfredol ar ôl sicrhau swydd barhaol gyda Bentley Motors; a myfyriwr Gradd Meistr Celf a Dylunio, Carl Edwards, yn cael sylw ar y newyddion cenedlaethol gan S4C a BBC Radio Wales gyda'i brosiect a fathodd lythrennau Cymraeg newydd i'w harddangos ar arwyddion ffyrdd ar draws y wlad.

Gwnaethom lansio ein hymgyrch cwpanau y gellir eu hailddefnyddio i annog defnyddio cwpanau o'r fath yn ein campysau a lleihau nifer y cwpanau na ellir eu hailddefnyddio sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Cyflwynodd Aramark, darparwydd gwasanaeth arlwy'o'r Brifysgol, ffi ychwanegol o 20 ceiniog ar gyfer unrhyw un yn defnyddio cwpan na ellir ei hailddefnyddio a hyd yma mae hyn wedi ein galluogi i brynu 2,000 o gwpanau cadw gyda brand y Brifysgol arnynt ac atal gwerth mwy na 300kg o gwpanau na ellir eu hailddefnyddio rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

Cyhoeddwyd mai Colin Jackson CBE oedd ein Canghellor newydd yn Rhagfyr 2018 a chafodd ei sefydlu'n swyddogol yn ei rôl newydd mewn seremoni gafodd ei darlledu gan ITV Wales. Yn dilyn hynny Colin oedd y prif siaradwr yn ein Cynhadledd Staff 2019, gydag anerchiad llawn ysbrydoliaeth am ei lwyddiannau a'i heriau ym maes chwaraeon. Bu'n llywyddu yn seremonïau graddio'r Brifysgol yn Hydref 2019 hefyd.

Gwnaethom gyflwyno Cymrodoriaeth Anrhydeddus i chwe unigolyn haeddiannol yn y seremonïau graddio eleni – David Jones, Nazir Afzal, yr Athro Sharon Baurley, yr Athro Charlotte Williams, Charlie Adlard a Tony Andrews. Anrhydeddwyd David an ei wasanaethau i'r gymuned, Nazir am ei wasanaethau i'r gymdeithas, yr Athro Baurley am ei gwasanaethau i gelf, yr Athro Williams am ei gwasanaethau i gyfle cyfartal yng Nghymru, Charlie am ei wasanaethau i'r Celfyddydau Creadigol a Tony am ei wasanaethau i Dechnoleg Sain a Cherddoriaeth.

¹ Ffynhonnell: Tabl cynghrair Prifysgolion The Times a'r Sunday Times 2020

Ym mis Mawrth eleni lansiwyd y Ganolfan Arbenigedd Ffotoneg. Dan arweiniad y tîm yng Nghanolfan OpTIC, mae'r prosiect tair blynedd hwn gwerth £5.8m, yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth gyda Phrifysgolion De Cymru, Bangor ac Aberystwyth. Bydd y grŵp yn gweithio gyda chwmnïau ledled Cymru yn cefnogi'r holl sectorau i ddod ag arbenigedd o bob cwr o Gymru ynghyd a sefydlu prosiectau ymchwil cydweithredol, i annog diwydiannau i groesawu a defnyddio technolegau ffotoneg i wasanaethu eu gofynion datblygu cynhyrchion a phrosesau eu hunain.



Ym mis Mawrth hefyd lansiwyd ein cynigion prentisiaeth newydd sbon ym meysydd peirianeg, diogeledd seibr a gwyddor data, ynghyd â lansio ein cymwysterau Meistr Gweinyddiaeth Busnes (MBA) ar-lein.

Ym mis Gorffennaf cafodd ein ceisiadau cynllunio Campws 2025 eu hystyried, o'r diwedd. Cymeradwywyd pump o'r saith cais, yn cynnwys gwella ac uwchraddio campws Plas Coch a Stryt y Rhaglaw. Y ddau gais na chawsant eu cymeradwyo oedd y rhai ar gyfer ein safleoedd yn Ffordd y Deon a Gatewen nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach y mae'r Brifysgol yn dymuno eu gwaredu er mwyn codi arian i'w wario ar wella'r campws er budd myfyrwyr cyfredol a myfyrwyr y dyfodol. Rydym ni yn y broses o apelio yn erbyn gwrthod y ceisiadau hyn ar hyn o bryd.

Nid yw'r oedi cyn cael y caniatâd angenrheidiol i fwrw ymlaen gyda'n cynlluniau wedi atal y prosiect Campws 2025 rhag symud ymlaen. Eleni gwelwyd gweddnewid Y Galeri, gwagle astudio agored, a gwblhawyd ym mis Ebrill, adnewyddu'r gwagle addysgu yng Nghoridor B yn y prif gamwps a gwella coridorau eraill yn gyffredinol, uwchraddio'r toiledau yng Nghoridor A, yn cynnwys darparu toiled niwtral o ran rhywedd a thoiled Changing Places (y Brifysgol yw un o ddau sefydliad yn lleol sy'n darparu cyfleuster o'r fath) ynghyd ag agoriad swyddogol Parc y Glowyr a ddatblygwyd gan Gymdeithas Pel-droed Cymru fel eu Canolfan Genedlaethol Datblygu Pel-droed y gall myfyrwyr Prifysgol Glyndwr ei defnyddio.

Mae rhagor o ddatblygiadau cyffrous wedi bod yn digwydd yn Llanelwy a Llaneurgain hefyd, gyda chyflwyno'r gwagle addysgu 'Gofod' yn Llanelwy – sy'n galluogi addysgu am y tro cyntaf yno.

Rydym ni hefyd yn rhan o gynllun meistr adfywio allweddol gyda'r nod o ailfywiogi porth Ffordd yr Wyddgrug i mewn i Wrecsam. Mae Prifysgol Glyndŵr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Llywodraeth Cymru a Chlwb Pel-droed Wrecsam wedi ymuno gyda'i gilydd i greu Prosiect Porth Wrecsam – cynllun economaidd a dinesig ar raddfa fawr gyda'r nod o ailddatblygu ardal fawr ger coridor Ffordd yr Wyddgrug. Gweledigaeth y prosiect yw darparu adfywio bywiog yn yr ardal, creu canolbwynt i gefnogi buddsoddi mewn busnes; cefnogi seilwaith academiaidd, tai a chwarae a chreu gwagle cyhoeddus gwerthfawr sy'n cysylltu gyda chanol tref Wrecsam.

Mae'r Brifysgol yn parhau i gynnig cymuned fywiog, gyfeillgar a chefnogol gyda system tiwtor personol i gynorthwyo unigolion i gyrraedd eu potensial trwy ragoriaeth academiaidd. Y cyfraniadau gan bob rhan o'r brifysgol, aelodau staff unigol a'n gradddedigion sy'n creu llwyddiannau'r Brifysgol.



[Lluniau'r prosiectau Campws 2025 a gyflawnwyd yn 2019]

CHARITY INFORMATION

GWYBODAETH AM YR ELUSEN

Mae Prifysgol Glyndŵr yn elusen gofrestredig dan delerau'r Ddeddf Elusennau 2011 (elusen gofrestredig rhif 1142048)

Swyddfa Gofrestredig

Ffordd yr Wyddgrug

Wreccsam

LL11 2AW

Banc

National Westminster Bank plc.

33 Stryt yr Arglwydd

Wreccsam

LL11 1LP

Barclays Bank plc

Liverpool Lord Street

Caerlŷr

LE87 2BB

Allied Irish Bank (UK) plc

10 Berkeley Square

Mayfair

Llundain

W1J 6AA

Archwilydd Allanol

KPMG LLP

1 Sovereign Square

Leeds

LS1 4DA

Archwilydd Mewnol

RSM LLP

Festival Way

Festival Park

Stoke-on-Trent

ST1 5BB

ADOLYGIAD ARIANNOL A GWEITHREDOL

Perfformiad ariannol sefydlog

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi cynhyrchu blwyddyn arall gyda gwarged gweithredol, er gwaethaf y llu o ansicrwydd a phwysau yn y sector Addysg Uwch. Gwnaeth lefel cyfanswm yr incwm gynyddu £534k gyda'r costau uniongyrchol wedi'u rheoli yn unol â thargedau'r gyllideb.

Mae'r diffyg terfynol yn yr adroddiad yn arwyddocaol is na'r gyllideb wreiddiol. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnwys taliadau gwasanaeth blaenorol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn deillio o ddyfarniad y Llys Apêl ynghylch trefniadau trosiannol yn effeithio ar bensiynau barnwyr ac ymladdwyr tân (McCloud a Sergeant). Effaith y dyfarniad hwn i'r Brifysgol yw ffi ychwanegol (nid arian parod) (£625k) o ran costau gwasanaeth blaenorol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n ofynnol i'w ddangos yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

Yn ychwanegol at y cynnydd yn u costau pensiwn mae tâl amhariad yn ymwneud ag ased tir ac eiddo ar werth wedi lleihau'r gwarged net ymhellach o £700k.

Effaith hyn yw gwarged net o £615k, heb gynnwys yr amhariad ased a chost darpariaethau McCloud byddai hyn yn gadael gwarged net am y flwyddyn o £710k. Mae'r ffigur hwn yn darparu cymhariaeth go iawn gyda gwarged y flwyddyn flaenorol ac yn dangos bod y Brifysgol wedi gwella ei pherfformiad ariannol o'i gymharu yn erbyn 2017/18.

Yr adeg yn dynesu at ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd y cyfnod pan weithredwyd cynllun gweithredol y dyfodol. Cynhaliwyd adolygiad lefelau staffio, ac yn benodol adolygiad ar raddfa fawr o'r swyddogaethau Cynllunio Strategol a Chofrestru, a arweiniodd at leihau'r lefelau staffio a symud tuag at wasanaethau awtomatig a hunan wasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon. Canlyniad hyn fu lefel y costau ailstrwythuro sylfaenol a ddangosir yn y Datganiad.

Mae'r fenter hon wedi cynorthwyo'r Brifysgol i reoli'r cynnydd costau ar raddfa fawr (naid o 6.7%) sy'n gysylltiedig gyda'r cynnydd sy'n ofynnol yng nghyfraniadau'r cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon a ddaeth i rym o fis Medi 2019.

Mae'r diffyg cysylltu'r ffi dysgu gydag unrhyw fynegai wedi golygu bod rhaid amsugno cynnydd mewn costau trwy un ai gynnydd yn niferoedd y myfyrwyr, twf mewn meysydd cynhyrchu incwm eraill neu reoli/lleihau costau. Mae'r Brifysgol wedi parhau i fabwysiadu'r strategaeth hon a gwnaeth 2018/19 weld parhad yn nhwf y rhaglen Addysg Ryngwladol a gweld y myfyrwyr cyntaf yn cofrestru ar gyfer rhaglen ar-lein y Brifysgol a ddatblygwyd yn ddiweddar. Bydd y ddwy fenter yma'n parhau i ehangu yn 2019/20.

Proffil incwm a gwariant hanesyddol


	2019	2018	2017	2016
	£000's	£000's	£000's	£000's
Cyfanswm incwm academaidd	29,871	29,105	29,486	31,864
Cyfanswm incwm anacademaidd	6,094	6,326	6,230	7,590
Cyfanswm incwm gros	35,965	35,431	35,716	39,454
Cyfanswm costau cyflogau ac eithrio costau pensiwn staff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)	(21,431)	(21,887)	(22,984)	(23,493)
Cyfanswm costau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau	(13,248)	(12,239)	(11,425)	(14,424)
Cyfanswm gwariant otal expenditure ac eithrio cosaut pensiwn staff y CPLIL	(34,679)	(34,126)	(34,409)	(37,917)
Gwarged/(diffyg) gweithredol ac eithrio costau pensiwn staf ychwanegol y CPLIL ac amhariad ased	1,286	1,305	1,307	1,537
Costau pensiwn CPLIL ac eithrio cyfraniadau'r cyflogwr	(1,201)	(893)	(715)	(670)
Amhariad asedau	(700)	-	-	-
Colled ar waredu ased sefydlog l les cyllid	-	-	(44)	-
Gwarged/(diffyd) net	(615)	412	548	867

Dangosyddion perfformiad allweddol ariannol

	2019	2018	2017	2016
Cyfanswm incwm	35,965	35,431	35,716	39,454
Gwarged / (diffyg) net fel % y cyfanswm incwm	1.7%	1.2%	1.5%	2.2%
Balans arian parod (£000)	4,591	4,117	2,827	3,238
Costau staff yn cynnwys costau ychwanegol pensiwn staff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel % yr incwm gros	62.9%	64.3%	64.4%	59.5%

Lefelau incwm

Dadansoddiad Trosiant y Grŵp



Gwnaeth cyfanswm incwm y grŵp gynyddu 1.5% i £36.0m yn 2018/19. Gyrrwyd hyn gan y cynnydd mewn grantiau gan gyrrff cyllido. Derbyniwyd £389k o gyllid lliniaru ffioedd.

Mae prif ffynhonnell refeniw'r Brifysgol yn parhau i ddod o ffioedd dysgu a chytundebau addysg a leihaodd ychydig o 73% i 72% o gyfanswm incwm y grŵp yn 2018/19.

Buddsoddiad cyfalaf

Mae'r Brifysgol wedi parhau gyda'i chynlluniau Campws 2025 uchelgeisiol ac yn ystod y flwyddyn cwblhawyd y broses o brynu Pentref Myfyrwyr Wreccsam, gan ddefnyddio benthyciad. Mae hyn wedi sicrhau bod gan y Brifysgol lety modern, addas i'w bwrpas, i'w gynnig i'n myfyrwyr. Yn ychwanegol, mae wedi rhyddhau tir ar chwarter gogleddol y campws, fel y gellir gwerthu'r tir yma i gyllido rhagor o ddatblygiadau Campws 2025. Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer adeilad newydd ar y safle a rhoddwyd cyfarwyddiadau i asiant tir drefnu'r gwerthiant.

Cafodd yr holl geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau Campws 2025 eu cymeradwyo, er y gwrthodwyd caniatâd cynllunio i ddau safle i'w gwaredu i'n galluogi i wneud rhagor o welliannau, ac mae'r rhain yn mynd trwy'r broses apêl ar hyn o bryd. Bydd y Bwrdd yn parhau i ailfuddsoddi derbynebau cyfalaf i gyflawni'r rhaglen Campws 2025.

Llif arian a chyllido

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd balansau arian parod o £4.6m, ac roedd hyn yn bennaf yn unol â'r rhagfynegiadau. Mae'r benthyciad i gyllido caffael Pentref Myfyrwyr Wreccsam yn cael ei adlewyrchu ar y Datganiad y Sefyllfa Ariannol fel cynnydd yn y credydwyr tymor hir, wedi'i wrthbwysu gan gynydd yn yr asedau sefydlog.

Ymddengys bod y Datganiad y Sefyllfa Ariannol wedi'i gwanychu gan y cynnydd yn y ddarpariaeth pensiwn, sy'n £31,225k erbyn hyn. Bu'r ddarpariaeth yn £20,159k yn 2018 ond yn flaenorol bu'n £26,130k yn 2017, £32,226k yn 2016 a £22,559 yn 2015. Mae amrywiadau o'r fath yn gyfangwbl y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol ac felly cyfyngedig yw eu defnyddioldeb wrth ystyried y sefyllfa ariannol gyffredinol.

Pensiynau

Mae'r Grŵp yn rhan o dri chynllun pensiwn, y Cynllun Pensiwn Athrawon, y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r Cynllun Blwydd-dal Prifysgolion. Ni fu'n bosibl nodi cyfran y sefydliad yn asedau a rhwymedigaethau sail o ran y Cynllun Pensiwn Athrawon a'r Cynllun Blwydd-dal Prifysgolion; fel y cyfryw cyfrifir ar gyfer y rhain fel petaent yn gynlluniau cyfraniadau diffiniedig. Fodd bynnag, dan y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) 2015, cyflwynwyd rhwymedigaeth o £155k, yn dilyn cwblhau prisiau 2018, i ystyried y diffyg yn y Cynllun Blwydd-dal Prifysgolion sy'n cael ei ad-dalu ar hyn o bryd gyda chyfraniadau cytunedig ychwanegol.

Rhagolygon ariannol

Roedd y Brifysgol yn codi ffi dysgu blynyddol o £9,000 i fyfyrwyr israddedig amser llawn o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn ystod 2018/2019, o'i gymharu gyda'r ffi o £9,250 a godwyd gan sefydliadau yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i'r Cyngor Cyllido

ar gyfer 2018/2019 i wneud iawn am barhad capio'r ffi ac mae hyn wedi'i ddyrannu i'r sefydliadau ar ffurf grant lliniaru ffioedd. Ar hyn o bryd mae capio'r ffi i £9,000 yn parhau ond dilewyd y grant lliniaru ffioedd ar gyfer 2019/20. Comisiynwyd Adolygiad o Addysg Ôl 18 a Chyllido yn Lloegr (AUGAR) gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chafwyd yr adroddiad yn 2019. Mae'n bosibl y bydd yr adolygiad hwn o'r system yn Lloegr yn dylanwadu ar benderfyniadau cyllido yng Nghymru yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r fethodoleg ar gyfer cyllido sefydliadau yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol yn ansicr.

Bydd gweithredu parhaus y Strategaeth Gyllid yn gweld y Brifysgol yn parhau i gynnal sefyllfa ariannol iach ac ar y trywydd cywir i gyflawni ei chenhadaeth bwysig.

Amcanion ariannol allweddol y strategaeth yw:

- 1 Sicrhau **Cynaliadwyedd Ariannol** tymor hir y Brifysgol.
- 2 Cynnal **Solfedd**.
- 3 Hyrwyddo **Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian**.
- 4 Sicrhau safonau uchel **Uniondeb** ac **Atebolrwydd** ariannol.
- 5 Cynyddu gwerth ac amrywiaeth yr **Incwm** o ffynonellau cyhoeddus, preifat a busnes.
- 6 Sicrhau bod y **Risgiau Ariannol** sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sy'n bodoli eisoes a chyfluoedd newydd yn cael eu cyfathrebu a'u rheoli'n briodol.
- 7 Defnyddio dull clir a chadarn o ran **Cynllunio Ariannol**, gwneud penderfyniadau a **Dyrannu Adnoddau**

Dengys datganiadau ariannol 2018/19 fod y Brifysgol wedi defnyddio 63% o'i hincwm ar gostau staff a phensiynau, o'i gymharu gyda 64% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn gyson gyda'r norm yn y sector a thargedau'r Strategaeth Ariannol. Ar y cyd â'r adolygiadau effeithlonrwydd a gynhaliwyd yn ystod yr haf, mae'r ymarfer wedi ailosod y sail costau ac wedi cryfhau sylfeini ariannol y brifysgol, gan ei galluogi i gynllunio ar gyfer gwargedau cyfrifyddu ac arian parod uwch i ddarparu'r cyllid ar gyfer y rhaglen ddatblygu uchelgeisiol a nodir yn y strategaeth Campws 2025. Er mwyn cynhyrchu cyllid datblygu, ac i wrthsefyll yr ansicrwydd yn deillio o'r trefniadadu ffioedd cyfredol, mae gan y Brifysgol gynlluniau uchelgeisiol i dyfu ac arallgyfeirio ei sail incwm trwy ddatblygu rhaglenni academaidd newydd a buddsoddi mewn gweithgarwch ymchwil ac arloesi, y ddau i'w darparu trwy ystad a seilwaith newydd ac wedi'i uwchraddio.

DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS

Mae Prifysgol Glyndŵr yn elusen gofrestredig sy'n ceisio darparu a datblygu addysg uwch yng ngogledd ddwyrain Cymru, Cymru, y Deyrnas Unedig a thramor. Ei chenhadaeth yw *ysbrydoli a galluogi: gweddnawid pobl a lleoedd a llywio llwyddiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol*.

Amcanion elusennol y Brifysgol yw darparu addysg uwch a chynnal gwaith ymchwil; ac mae budd yr amcanion hyn yn deillio o gyfranogiad unigolion mewn cyrsiau a hysbysir gan ymchwil ac a arweinir gan ddiwydiant er mwyn darparu unigolion proffesiynol sy'n barod am yrfa, sy'n cefnogi ac yn bodloni anghenion yr economi ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol. Y buddiolwyr yw'r cyhoedd yn gyffredinol gan fod addysg yn agored iddynt.

Mae ehangu mynediad yn rhan annatod o gymeriad y Brifysgol wedi'i seilio ar ymrwymiad i ddarparu mynediad i addysg uwch sy'n gynhwysol, teg a chefnogol, a chael gwared ar y rhwystrau i Addysg Uwch i bobl o bob sector yn y gymdeithas. Mae'r Brifysgol yn y safle cyntaf yng Nghymru a Lloegr o ran cynhwysiant cymdeithasol^[1]. Mae'r safle hwn yn cynnwys safleoedd nodedig eraill fel y chweched yng Nghymru a Lloegr ar gyfer derbyniadau o ardaloedd amddifadus (23.6%), cyntaf yng Nghymru a Lloegr am nifer y myfyrwyr anabl (22.1%), cyntaf yng Nghymru a Lloegr o ran y myfyrwyr aeddfed (72.0%) ac ail yng Nghymru a Lloegr o ran derbyniadau o ysgolion y wladwriaeth (99.2%).

Mae Prifysgol Glyndŵr yn denu 57.5%^[2] o'i phoblogaeth myfyrwyr o ranbarth Gogledd Cymru. Mae myfyrwyr israddedig amser llawn sy'n byw yng Nghymru yn medru cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a gallant ymgeisio am grantiau cymorth arbennig a benthyciadau cynnal a chadw i gefnogi eu hastudiaethau. Mae myfyrwyr o Loegr yn medru cael Benthyciadau Cynnal a Chadw. Mae gan y Brifysgol ei hun ystod o gynlluniau eraill, yn cynnwys bwrsariau ac ysgoloriaethau, i gynorthwyo myfyrwyr i ddod i addysg uwch, yn cynnwys cronfa ddisgresiynol i helpu'r rhai sydd angen cymorth ariannol i barhau gyda'u hastudiaethau. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal ac mae'n darparu pecynnau cymorth ariannol a chefnogaeth sy'n medru cynnwys gwarant o lety ar y campws a chyfradd ddisgownt am y flwyddyn gyntaf.

Mae'r Brifysgol yn cynnig cyrsiau mewn ystod o bynciau, yn cynnwys y celfyddau creadigol a chymhwysol, yr amgylchedd adeiledig, peirianeg, cyfrifiadureg, gwyddorau iechyd a gwyddorau cymdeithasol cymhwysol. Mae mwy na 30 o gyrff proffesiynol yn achredu cyrsiau'r Brifysgol.

Bwriad llawer o waith ymchwil y Brifysgol a gyllidir yw bod o fudd i'r cyhoedd, p'un ai o ran cymunedau o ddiddordeb neu gymunedau lle penodol. O'r 17 prosiect ymchwil a gyllidwyd yn allanol yn 2018/19, comisiynwyd 11 gan y sector cyhoeddus a mudiadau gwirfoddol i gefnogi eu hamcanion budd cyhoeddus eu hunain. Roedd y mudiadau hyn yn cynnwys Barnardo's, Addaction, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Forces in Mind Trust, Llywodraeth Cymru a Chadwyn Clwyd. Roedd y gwaith ymchwil ei hun yn cwmpasu ystod o bynciau, yn cynnwys rhianta, defnydd alcohol, cefnogaeth i gyn aelodau'r lluoedd arfog, rheoli busnesau bach, cydnerthedd personol a chyflogadwyedd.

Y llynedd gwnaeth y Brifysgol ddatblygu strategaeth ymgysylltu dinesig, sy'n gyrru ei huchelgais i fod yn weddnawidiol, ymatebol ac yn cael ei harwain gan y galw. Bu'n gweithio mewn partneriaeth yn y rhanbarth i uno addysgu, ymchwil ac ymgysylltu gan ganolbwyntio ar ehangu cyfranogiad a gwaith cymunedol, i sicrhau effaith cymdeithasol ac economaidd ar draws y rhanbarth. Mae'r Brifysgol yn cyflawni nifer o brosiectau trawsnewidiol ar draws y rhanbarth dan y strategaeth hon, ac mae'r datblygiadau diweddaraf yn cynnwys ymrwymo i Fanifesto Ymgysylltu Cyhoeddus y Ganolfan Gydlyn Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus, a gwneud addewid i'r Comisiwn Prifysgolion Dinesig i ddrafftio cytundeb prifysgolion dinesig gyda phartneriaid ar draws gogledd Cymru.

^[1] Ffynhonnell: Tablau cynghrair Prifysgolion The Times a'r Sunday Times 2020

^[2] Ffynhonnell: HESA Student (FPE) o ddata Heidi+ 17/18

Mae staff y Brifysgol yn elwa trwy gymryd rhan yng ngwaith ymchwil a gweithgareddau ysgolheigaidd y Brifysgol. Mae hyn yn cynorthwyo i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n cael eu cadw'n gyfredol a chryfhau eu henw da proffesiynol ac academiaidd yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae'r staff hefyd yn elwa o gydweithredu gydag academyddion mewn prifysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae budd i staff y sefydliadau partner o ymgysylltu gyda staff y Brifysgol hefyd.

Isod rhoir enghreifftiau o weithgareddau penodol a gynhaliwyd yn ystod 2018/19.

- Gwnaethom weithio ar y cyd gyda Dechrau'n Deg Wrecsam a Sir y Fflint i annog staff, myfyrwyr a'r cyhoedd i 'Gymryd Tag Rhodd' i gefnogi menter Nadolig ar ein campws yn Wrecsam a Llaneurgain i roi cymorth i blant lleol na allai eu teuluoedd ddarparu anrhegion Nadolig iddynt. Gwnaeth staff a'r cyhoedd ddod â mwy na 40 o anrhegion i'w dosbarthu i blant cymwys.
- Gwnaeth myfyrwyr theatr, fel rhan o'u gradd Theatr, Teledu a Pherfformiad, weithio gyda Meithrinfa Ysgolheigion Bychain, i ddatblygu drama wedi'i seilio ar themâu moroedd i gael profiad o berfformio mewn lleoliad yn y gymuned.
- Gwnaeth darlennydd o'r brifysgol archwilio effaith pris isafswm alcohol yng Nghymru a'r Alban ac roedd yn brif siaradwr yn nigwyddiad cyntaf yr elusen Alcohol Change UK.
- Gwnaeth ein tîm datblygu gemau cyfrifiadurol gynnal digwyddiad deuddydd technoleg a gemau cyfrifiadurol 'Level Up Wales 2019' yn addas ar gyfer pob oedran, ar y cyd gyda Doniau Gemau Cymru, Tech Gogledd Cymru, Rhwydwaith Gemau Cymru, Gemau Cymru a'r elusen Everyone Can.
- Rydym ni wedi gweithio gyda Chymru Gynnes ar eu prosiect 'Cartrefi Iach, Pobl Iach Gogledd Cymru' sy'n ceisio rhoi hwb i lesiant pobl ar draws gogledd Cymru. Mae hon yn fenter gydweithredol arloesol sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a thai y gellir eu hosgoi erbyn 2025. Mae'n myfyrwyr Iechyd a Llesiant Meddwl BSc wedi gwirfoddoli eu hamser ar leoliadau gwaith yn mynd ar ymweliadau cartref i roi cefnogaeth i bobl mewn pedwar maes allweddol: diogelwch y cartref a diogelwch personol, uchafu incwm a chefnogaeth bersonol/i'r teulu, cynhesrwydd fforddiadwy a deilliannau iechyd a llesiant.
- Cynhaliwyd digwyddiad cerddorol ar gyfer cannoedd o ddisgyblion o ysgolion ledled Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a drefnwyd gan Gydweithredfa Gerddoriaeth Wrecsam, yn Neuadd William Aston.
- Gwahoddwyd pobl ifanc i ddigwyddiadau gyda thîm cynhwysiant y brifysgol, fel rhan o'r prosiect Ymgysylltu i Newid, a arweiniwyd gan Anableddau Dysgu Cymru, sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed gydag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth mewn lleoliadau gwaith gyda thâl sy'n parhau am chwech i 12 mis, i'w cynorthwyo i ddod o hyd i swydd. Dangosodd ein tîm cynhwysiant y gefnogaeth bersonol a'r dechnoleg gynorthwyol sydd ar gael i'w helpu yn eu bywydau o ddydd i ddydd.
- Fel rhan o'r Strategaeth Ymgysylltu Dinesig mae'r Brifysgol yn parhau i arwain y prosiect Presgripsiynu Cymdeithasol yn y Gymuned mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; wedi cyd-greu rhaglen Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi'r pum dull gweithio a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; yn cymryd rhan yn natblygiad dull newydd o gefnogi iechyd meddwl da ar draws ein rhanbarth gan gefnogi'r cynllun cyflawni Gyda'n Gilydd ar gyfer

Iechyd Meddwl 2019-2022; a gyrru dull newydd o ymdrin â gwirfoddoli ar draws y brifysgol gyda phartneriaid allweddol yn y sector gwirfoddol a chymunedol. Rydym ni hefyd wedi agor Gofod newydd yn ein campws yn Llanelwy i gefnogi digwyddiadau dinesig a chymdeithasol.

- Gwnaethom ddatlu symud i fyny 175 lle ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall, sy'n asesu cynnydd sefydliadau tuag at gynhwysiant unigolion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn y gweithle.
- Gwnaeth tîm menter y Brifysgol a darlithwyr o Ysgol Fusnes Gogledd Cymru drefnu cynhadledd am ddim yn edrych ar fentrau cymdeithasol sy'n cael eu cynnal fel mentrau masnachol, gan ganolbwyntio ar geisio sicrhau newid cadarnhaol i'r byd trwy wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol neu ariannol.
- Roedd nifer o ddigwyddiadau am ddim yn agored i'r cyhoedd i ddynodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Gan weithio gyda mudiadau cymunedol gwnaeth staff academaidd y brifysgol gynnal amrywiaeth o sesiynau a sgysiau rhyngweithiol, yn cynnwys 'celf ac iechyd meddwl' a 'phwysigwydd llesiant'.
- Cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau cerddorol a chomedi a chyngherddau fel rhan o raglen digwyddiadau cyhoeddus y Brifysgol yn Neuadd William Aston.
- Trefnodd gaplaniaeth y Brifysgol gasgliadau banc bwyd i Fyddin yr Iachawdwriaeth eu dosbarthu i deuluoedd lleol a oedd yn ei chael yn anodd prynu nwyddau sylfaenol ar gyfer y Nadolig.
- Gwnaeth y Gaplaniaeth drefnu cyfres fer o ddarlithoedd amser cinio ar gyfer staff, myfyrwyr ac aelodau'r gymuned ar bynciau fel 'argaeledd, dilysrwydd a phresenoldeb mewn perthynas ofalgar' ac 'ysbrydolrwydd: dydw i ddim wedi canfod yr hyn rydw i'n chwilio amdano hyd yma'.
- Gwnaethom chwarae rôl allweddol yng Ngŵyl Strydoedd yn Canu Wrecsam, ar y cyd gyda'r trefnydd Ian Lucas AS, John Jones Quality Acoustics, Gwirfoddolwyr Côr Cymuned Wrecsam, Eglwys y Porth a Grŵp Busnes Wrecsam plc.

Llywodraethir y Brifysgol gan Fwrdd Llywodraethwyr/Ymddiriedolwyr, nad ydynt yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol, yn gyffredin gyda chorfforaethau elusennol addysg uwch eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae mwyafrif y Llywodraethwyr yn annibynnol o'r Brifysgol, ac mae staff lywodraethwyr a myfyrwyr lywodraethwyr ar y corff hefyd.

Casgliad

Mae gan y Brifysgol rôl benodol mewn cymdeithas sy'n cynnwys ymgysylltiad dwfn gyda'i rhanbarth a'i chymuned. Disgrifir rôl y Brifysgol yn glir, nid yn unig yn ei gweledigaeth a'i chenhadaeth, ond yn fwy penodol yn ei holl weithredoedd. Mae'r canolbwyntio ar raglenni sy'n berthnasol yn alwedigaethol ac ymchwil cymhwysol yn creu budd cyhoeddus sylweddol trwy ei gweithgareddau craidd, a'i rôl yn y gymuned trwy ddigwyddiadau cyhoeddus a mentrau penodol i ddarparu budd i'r gymuned ehangach trwy ei gweithgareddau eilaidd.

Mae Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol, fel ymddiriedolwyr y Brifysgol, wedi cydymffurfio â'r dyletswydd yn adran 17 Deddf Elusennau 2011 gan roi ystyriaeth ddyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar adrodd ar y budd i'r cyhoedd.

CYFRIFOLDEBAU BWRDD LLYWODRAETHWYR Y BRIFYSGOL

Yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988 mae Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr yn gyfrifol am weinyddiaeth a rheolaeth y Brifysgol a'r Grŵp ac mae'n ofynnol i'r Bwrdd gyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir cofnodion cyfrifyddu priodol, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Grŵp ac yn ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r Datganiad Arfer a Argymhellir (SORP) ar Gyfrifyddu mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a safonau cyfrifyddu eraill perthnasol. Yn ychwanegol, yn nhelerau ac amodau Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a'r Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'n ofynnol paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, trwy ei ddeiliad swydd atebol, sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Brifysgol a'r Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg, cyfanswm yr enillion neu'r colledion a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi sicrhau:

- dethol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas gyda chysondeb;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol, yn ddarostyngedig i unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- bod datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Brifysgol a'r Grŵp yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau bod y cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y'i rhoddwyd yn unig, ac yn unol â'r Cod Rheolaeth Ariannol ac unrhyw amodau eraill y gall y Cyngor Cyllido eu rhagnodi o dro i dro;
- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol yn eu lle i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r Brifysgol ac atal a chanfod twyll;
- sicrhau rheolaeth effeithiol, effeithlon a darbodus adnoddau a gwariant y Brifysgol.

Y Bwrdd Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gynnal a sicrhau uniondeb y wybodaeth ariannol a chorfforaethol a gynhwysir ar wefan y Brifysgol. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a rhannu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Yr Athro Maria Hinfelaar
Is-ganghellor a Phrif Weithredwr

DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi ymrwymo i ddangos yr arfer orau ym mhob agwedd o lywodraethu corfforaethol. Mae'r grynodedb hon yn disgrifio'r modd mae'r Brifysgol wedi gweithredu'r egwyddorion llywodraethu da yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Mae gan y Brifysgol ddyletswydd i gynnal trafodion mewn modd cyfrifol a thryloyw, ac i ystyried gofynion cyrff cyllido, y safonau mewn bywyd cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Nolan, y Cod Cyfun, Cod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig fel mae'n berthnasol i Addysg Uwch a Chod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (2014) [fel y'i diwygiwyd].

Mae Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn gyfrifol am systemau rheolaeth fewnol y Brifysgol a'r Grŵp, ac am adolygu eu heffeithiolrwydd. Dyluniwyd systemau o'r fath i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion a gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig, nid absoliwt, ynghylch colledion neu gamdatganiadau perthnasol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi mabwysiadu datganiad prif gyfrifoldebau, a gyhoeddir ar wefan y Brifysgol ac a adolygir o leiaf bob dwy flynedd. Mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Bwrdd yng nghyswllt cynnal busnes cyhoeddus yn briodol, cynllunio strategol, monitro effeithlonrwydd a pherfformiad, cyllid, archwilio, rheoli'r ystad, rheoli adnoddau dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, lles myfyrwyr, iechyd a diogelwch, penodi Swyddogion y Brifysgol a sicrhau bod trefniadau'n bodoli ar gyfer llywodraethu academiaidd effeithiol ac ansawdd a safonau rhaglenni addysgol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cyfarfod o leiaf bum gwaith y flwyddyn ac mae ganddo nifer o bwyllgorau: Y Pwyllgor Archwilio; y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid; y Pwyllgor Adnoddau Dynol; y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Mae gan yr holl bwyllgorau hyn gyfansoddiad ffurfiol gyda chylch gwaith, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol, ac maent yn cynnwys aelodau annibynnol yn bennaf. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan lywodraethwr annibynnol. Mae'r holl bwyllgorau'n adolygu ac yn myfyrio ar eu gwaith, ac yn darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Mae gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid gylch gorchwyl ariannol yn ogystal â strategol. O ran ei gylch gorchwyl ariannol, mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn argymhell cyllidebau blynyddol y Brifysgol a'r Grŵp i'r Bwrdd Llywodraethwyr ac yn monitro'r perfformiad yn erbyn y cyllidebau. O ran ei gylch gorchwyl strategol mae'r Pwyllgor yn monitro materion strategol ac yn cynghori'r Bwrdd Llywodraethwyr ynghylch cyfeiriad strategol y Brifysgol yn ogystal â rhoi ystyriaeth ddechreuol i a chynghori'r Bwrdd ar fusnes o bwys penodol neu'n arbennig o gymhleth nad yw'n dod o dan gylch gorchwyl pwyllgorau eraill y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'n cyfarfod hyd at dair gwaith y flwyddyn ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Llywodraethwyr o ran penodi llywodraethwyr newydd yn unol â'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu a rheolau sefydlog y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys un aelod allanol cyfetholedig nad yw'n aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr. Mae'r Pwyllgor yn monitro cydbwysedd y sgiliau, arbenigedd a phrofiad ymhlith yr aelodaeth, ar ran y Bwrdd, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu arweinyddiaeth briodol i'r Brifysgol i weithredu'n effeithiol wrth gadw trosolwg ar faterion y Brifysgol. Ceisia'r Bwrdd ddileu unrhyw rwystrau a allai atal pobl rhag

mynegi diddordeb mewn bod yn aelod o'r Bwrdd ac mae'r Pwyllgor yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir i'w hystyried ar gyfer eu penodi wrth chwilio i lenwi seddi gwag, gyda'r nod o sicrhau aelodaeth gytbwys sy'n adlewyrchu amrywiaeth y Brifysgol, ei gweithgareddau a'r rhanbarth. Roedd cydbwysedd rhywedd yr aelodaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd yn 45% benywod a 55% gwrywod, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o 40% o ferched ar gyrff llywodraethu sefydliadau Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig, gan ei wneud ymhlith y 55% o gyrff llywodraethu sydd â chydbwysedd rhywedd rhwng 40% a 60% benywod². Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ymdrechu i wella'r cydbwysedd rhywedd ac amrywiaeth gyffredinol y Bwrdd wrth recriwtio i leoedd gwag ar y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac yn monitro iechyd a diogelwch, materion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn ystyried data'n ymwneud â staff a pholisïau a gweithdrefnau. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys un aelod allanol cyfetholedig nad yw'n aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, y tro cyntaf i ystyried y datganiad polisi tâl blynyddol y mae'n ofynnol i'r Brifysgol ei gwneud ar gael i'r cyhoedd. Gwnaeth ail gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin 2019 ystyried cydnabyddiaeth ariannol deiliaid uwch swyddi yn unol â'r arfer flynyddol, a chyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd llawn ynghylch ei benderfyniadau.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, gydag archwilwyr mewnol ac allanol yn bresennol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri aelod allanol cyfetholedig o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Llywodraethwyr, sy'n darparu barn a safbwynt allanol yn nhrefnadau'r Pwyllgor. Mae uwch reolwyr y Brifysgol yn dod i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio fel bo angen, ond nid ydynt yn aelodau ohono. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol manwl sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella system rheolaethau mewnol y Brifysgol ac mae'n monitro gweithredu'r argymhellion. Ar ddechrau pob cyfarfod mae'r aelodau'n cyfarfod yn breifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol y Brifysgol heb swyddogion yn bresennol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal asesiad blynyddol o'i effeithlonrwydd ei hun.

Cedwir Cofrestr Buddiannau aelodau'r Bwrdd ac aelodau cyfetholedig y Pwyllgorau ac mae ar gael i'r cyhoedd; ac unrhyw ddatganiad o unrhyw wrthdaro buddiannau a wneir ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor.

Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiadau effeithlonrwydd, yn unol â gofynion Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion, o leiaf bob pedair blynedd; a chynhaliwyd adolygiad yn ystod 2017/18 gan hwylusydd allanol. Yn ystod 2018/19 mae'r Bwrdd wedi monitro'r cynllun gweithredu i weithredu'r argymhellion yn deillio o'i adolygiad effeithlonrwydd llawn diwethaf a gwnaed cynnydd da.

Mae'r cyfrifoldeb am wreiddio rheoli risg ar draws y Brifysgol a chynnal trosolwg o'r risgiau sefydliadol lefel uchel allweddol gyda Bwrdd yr Is-ganghellor, sy'n derbyn adroddiadau am risgiau a nodwyd ac yn ystyried y materion rheoli cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn ac yn archwilio'r gofrestr risgiau corfforaethol strategol ym mhob cyfarfod, i gynorthwyo i hysbysu'r rhaglen archwilio mewnol ar sail treigl. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn ac yn ystyried

² Norma Jarboe OBE/https://womencountblog.files.wordpress.com/2018/11/womencount-report-2018_web-version_new-final.pdf/2018

adroddiad gan ddarparwydd archwilio annibynnol y Brifysgol, RSM LLP, yn flynyddol ar y prosesau rheoli risg. Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi'i hadolygu gan y Bwrdd Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan archwilwyr mewnol ac allanol y Grŵp ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwella. Mae adroddiadau cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion yn cael eu monitro gan Fwrdd yr Is-ganghellor yn ogystal â'r Pwyllgor Archwilio. Hysbysir y sicrwydd i'r Bwrdd Llywodraethwyr am effeithiolrwydd y system risgiau a rheolaeth fewnol gan waith yr uwch reolwyr yn y Brifysgol, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a ystyrir gan y Pwyllgor Archwilio; a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr mewnol yn eu hadroddiad blynyddol a'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli.

Rheolaeth fewnol

Roedd prif elfennau system rheolaethau mewnol y Grŵp, wedi'u dylunio i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- Diffiniadau clir y cyfrifoldebau, a'r awdurdod wedi'i ddirprwyo i uwch reolwyr a phenaethiaid meysydd academiaidd a phroffesiynol;
- Proses gynllunio tymor canolig a thymor byr, wedi'i ategu gan gyllidebau manwl yn nodi'r incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol;
- Adolygu recriwtio myfyrwyr yn rheolaidd ac adolygu'r canlyniadau ariannol yn rheolaidd, yn cynnwys adrodd ar amrywiadau a diweddariadau ar y sefyllfaoedd alldro a ragfynegir;
- Gofynion wedi'i diffinio'n glir a'u ffurfioli i gymeradwyo a rheoli gwariant, gyda phenderfyniadau buddsoddi ynghylch gwariant cyfalaf neu refeniw yn ddarostyngedig i arfarniad ffurfiol manwl ac adolygiad yn unol â'r lefel cymeradwy a bennwyd gan y Bwrdd Llywodraethwyr;
- Rheoliadau Ariannol Cynhwysfawr, yn nodi'r rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethwyr;
- Tîm Archwilio Mewnol annibynnol proffesiynol y mae eu rhaglen flynyddol yn cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio;
- Cysylltu adnabod a rheoli risgiau gyda chyflawni amcanion strategol y Brifysgol trwy'r broses gynllunio;
- Gwerthuso tebygolrwydd ac effaith risgiau'n cael eu gwireddu fel rhan o'r un broses, a sefydlu mesurau lleddfu;
- Gwreiddio rheoli risgiau a phrosesau rheoli mewnol yng ngweithrediad parhaus yr holl adrannau academiaidd a gwasanaethau proffesiynol;
- Adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, ac yna i'r Bwrdd Llywodraethwyr, ar risgiau a rheolaethau mewnol; ac

- Adroddiadau i'r Bwrdd Llywodraethwyr ar brif ganlyniadau adnabod a gwerthuso risgiau ac adolygu eu rheoli.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, ar ran y Bwrdd Llywodraethwyr, wedi adolygu effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol y Brifysgol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cadw at ddarpariaethau'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch (2014) [fel y'i diwygiwyd] a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion; ac mae adroddiad adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod 2017/18 wedi cadarnhau hyn. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol yn codi yn ystod 2018/19 yng nghyswllt Llywodraethu Corfforaethol.

LLYWODRAETHWYR AC YMDDIRIEDOLWYR Y BRIFYSGOL

Mae'r bobl isod yn Llywodraethwyr ac Ymddiriedolwyr yr elusen a bob blwyddyn maent yn llofnodi ffurflen datgan buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

Llywodraethwyr

Ms M Penlington OBE (Cadeirydd)

Yr Athro M Hinfelaar Is-ganghellor

Mr P Barlow (Is-gadeirydd)

Ms Ebony Banks

Mr Jim Barclay

Mrs L Gough

Mr Angus Hamill-Stewart

Mr C Heron

Mr K Irwin

Mrs C Jenkins

Mr B Jones

Yr Athro S Jowett

Mr P McGrady

Dr J Mitchell

Mrs J Owen

Mr L Robinson

Mr A Sheibani

Mr David Sprake

Dr C Stuhlfelder

Mr D Subacchi

Mrs Caroline Whiteley

Cyfnod yn y swydd

1 Medi 2015 (Cadeirydd ers 13 Rhagfyr 2015) hyd yma

1 Ebrill 2016 hyd yma

1 Tachwedd 2016 hyd yma

1 Gorffennaf 2019 hyd yma

1 Mawrth 2019 hyd yma

1 Rhagfyr 2017 hyd yma

1 Gorffennaf 2017 tan 30 Mehefin 2019

1 Medi 2018 hyd yma

1 Gorffennaf 2018 hyd yma

1 Mai 2015 hyd yma

1 Tachwedd 2016 tan 31 Gorffennaf 2019

1 Mai 2016 hyd yma

1 Mai 2016 hyd yma

1 Medi 2018 hyd yma

1 Mai 2016 hyd yma

1 Mawrth 2018 tan 17 Mai 2019

1 Ionawr 2016 hyd yma

1 Ebrill 2019 hyd yma

14 Mawrth 2016 tan 31 Mawrth 2019

1 Medi 2016 hyd yma

1 Tachwedd 2018 tan 8 Tachwedd 2019

Clerc y Bwrdd Llywodraethwyr

Mrs V Butterworth

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I FWRDD LLYWODRAETHWYR PRIFYSGOL GLYNDŴR

ADRODDIAD AR ARCHWILIAD Y DATGANIADAU ARIANNOL

Barn

Rydym ni wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Glyndŵr (“y Brifysgol”) am y flwyddyn yn diwedd 31 Gorffennaf 2019 sy’n cynnwys Datganiad Incwm Cynhwysfawr y Brifysgol a Chyfunol, Datganiadau Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Brifysgol a Chyfunol, a Datganiad Sefyllfa Ariannol y Brifysgol a Chyfunol, Llif Arian Cyfunol a nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys y Datganiad Prif Bolisiau Cyfrifyddu. Yn ein barn ni mae’r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr gweithgareddau’r Grŵp a’r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2018, ac incwm a gwariant y Grŵp a’r Brifysgol, yr enillion a’r colledion a’r newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn, a llifau arian y Grŵp, am y flwyddyn a ddiweddodd;
- wedi eu paratoi’n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu’r Deyrnas Unedig, yn cynnwys FRS 102 *Y Safon Adrodd Ariannol sy’n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon*, a gyda’r *Datganiad o’r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015*;
- yn bodloni gofynion Cyfarwydddeb Cyfrifon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 201/19, a gyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2019; ac
- wedi eu paratoi’n briodol yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â’r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â gofynion moesegol y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol i’r grŵp. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail i’n barn.

Effaith ansicrwydd oherwydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar ein harchwiliad

Mae ansicrwydd ynghylch effeithiau ‘Brexit’ yn berthnasol i ddeall ein harchwiliad o’r datganiadau ariannol. Mae pob archwiliad yn asesu ac yn herio rhesymoldeb amcangyfrifon a datgeliadau cysylltiedig a wneir gan y Bwrdd Llywodraethwyr a pha mor briodol yw defnyddio’r sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi’r datganiadau ariannol. Mae’r rhain oll yn dibynnu ar asesu’r amgylchedd economaidd yn y dyfodol a rhagolygon a pherfformiad y grŵp yn y dyfodol.

Brexit yw un o’r digwyddiadau economaidd mwyaf arwyddocaol i’r Deyrnas Unedig, ac ar ddyddiad yr adroddiad hwn mae ei effeithiau’n ddarostyngedig i lefelau ansicrwydd digynsail o ran y canlyniadau, gyda’r ystod lawn o effeithiau posibl yn anhysbys. Gwnaethom gymhwyso dull safonol a ddefnyddir ar draws y cwmni mewn ymateb i’r ansicrwydd hwn wrth asesu rhagolygon a pherfformiad y grŵp yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni ddylid disgwyl i unrhyw archwiliad ragfynegi’r ffactorau na ellir eu gwybod na’r holl oblygiadau posibl yn y dyfodol ar ran cwmni, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos Brexit.

Busnes gweithredol

Mae’r Bwrdd Llywodraethwyr wedi paratoi’r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, gan nad ydynt yn bwriadu diddymu’r Grŵp nac i’r Brifysgol roi’r gorau i’w gweithrediadau, a gan ei fod wedi dod i’r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a’r Brifysgol yn golygu fod hyn yn realistig. Maent hefyd wedi dod i’r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd sylfaenol a allai greu amheuaeth arwyddocaol ynghylch ei gallu i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo’r datganiadau ariannol (“y cyfnod busnes gweithredol”).

Mae'n ofynnol i ni adrodd wrthyhych chi os ydym ni wedi dod i'r casgliad nad yw'r defnydd o'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu yn briodol neu na ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a allai achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i ddefnyddio'r sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol. Wrth werthuso casgliadau'r Bwrdd Llywodraethwyr gwnaethom ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp, yn cynnwys effaith Brexit, a dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol neu allu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau gweithrediadau yn ystod y cyfnod busnes gweithredol. Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â hyn.

Serch hynny, ni allwn ragfynegi'r holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, a gan y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson gyda barn a oedd yn rhesymol ar adeg llunio'r farn, nid yw diffyg cyfeirio at ansicrwydd sylfaenol yn yr adroddiad archwilydd hwn yn warant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

Gwybodaeth arall

Y Bwrdd Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr Adolygiad Ariannol a Gweithredol, Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Budd Cyhoeddus. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym ni'n mynegi barn archwilio ar unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ynddynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, nodi unrhyw anghysondebau neu gamddatganiadau o bwys ar sail ein gwaith archwilio'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth wrth gynnal yr archwiliad. Ar sail y gwaith hwnnw'n unig, nid ydym wedi gweld unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd Llywodraethwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn ei ddatganiad ar dudalen 15, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am: baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; bod y rheolaethau mewmol y penderfynir eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi'r datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatgan o bwys, p'un ai oherwydd twyll neu wall; asesu gallu'r grŵp a'r rhiant Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel bo'n briodol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol; a defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai ei fod un ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo unrhyw ddewis amgen realistig ac eithrio gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd

Cawsom ein penodi fel archwilydd dan Adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenydd) ac rydym ni'n adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed dan Adran 154 y Ddeddf honno.

Ein hamcanion ni yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch p'un ai yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio bob amser yn canfod camddatganiad o bwys lle bo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir eu bod o bwys os y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol, yn unigol neu'n gyfunol.

Darperir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol - www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

ADRODDIAD AR OFYNIION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL ERAILL

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion isod dan God Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a gyhoeddwyd dan y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r cronfeydd o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u cymhwyso'n briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol; a
- mae cronfeydd a ddarparwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi eu cymhwyso yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolwydd ac unrhyw delerau ac adnoddau eraill yn gysylltiedig gyda nhw.

MATERION Y MAE'N OFYNNOL ADRODD ARNYNT FEL EITHRIAD

Nid oes gennym unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn, lle mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os, yn ei barn ni:

- nad yw'r wybodaeth a roir yn yr adolygiad ariannol a gweithredol yn anghyson mewn unrhyw fodd perthnasol gyda'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno gyda'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY RYDYM NI'N ATEBOL

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn unig, yn unol ag Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol ac Adran 124B Deddf Diwygio Addysg 1988 ac yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenydd) a rheoliadau a wnaed dan Adran 154 y Ddeddf honno. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni ddatgan wrth y Bwrdd Llywodraethwyr am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ddatgan arnynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Brifysgol a'r Bwrdd Llywodraethwyr am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn neu'r barn a ffurfiwyd gennym ni, i'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith.

Clare Partridge

Ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Cyfrifwyr Siartredig

1 Sovereign Square

Leeds

LS1 4DA

Dyddiad:

28 Tachwedd 2019

Cyfrifon ariannol

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu

Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015 ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS102), sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso'r gofyniad budd cyhoeddus perthnasol o ran FRS 102. Lle bo'n berthnasol mae'r datganiadau ariannol yn cadw at gyfarwyddbau cyfrifyddu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Sail cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn costau hanesyddol, wedi'i addasu gan y gost dybiedig ar gyfer rhai asedau sefydlog fel y cawsant eu hailbriso gyda chyflwyno adrodd ar sail FRS102.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi ystyried y rhagfynegiadau ariannol manwl a gofynion arian parod y Brifysgol a'r Grŵp am y dyfodol rhagweladwy. Wrth ystyried y rhain, mae'r Bwrdd Llywodraethwyr o'r farn bod gan Grŵp y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy ac mae'n parhau i fabwysiadu'r dull busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Wrth ddod i'r farn hon ar gynaliadwyedd ariannol y sefydliad hwn, ystyriwyd y ffactorau a ganlyn:

Ariannol

- monitro perfformiad yn rheolaidd trwy adroddiadau misol, cyllidebau blynyddol a rhagfynegiadau ariannol blynyddol, yn cynnwys cyflwyno rhagfynegiadau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- mesur yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig
- cydymffurfio gyda chyfamodau ariannol ein benthycwyr
- strategaeth llif arian sy'n cyd-fynd â'r drefn gyllido ac sy'n ystyried llanw a thrai'r gylchred gyllido

Anariannol

- mesur yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig
- cadw Cofrestr Risgiau sy'n ystyried y risgiau strategol ariannol ac anariannol
- parhau i ddarparu swyddogaethau llywodraethu a chyfreithiol sy'n cwmpasu'r holl gydymffurfio ariannol, statudol a rheoleiddiol

Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2019. Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad incwm a gwariant cyfunol o ddyddiad eu caffael neu hyd at ddyddiad eu gwaredu. Mae trafodion mewnol rhwng y grŵp yn cael eu dileu wrth eu cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant yr Undeb Myfyrwyr gan nad oedd gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad tra-arglwyddiaethol dros benderfyniadau polisi.

Darperir manylion am drafodion is-gwmnïau'r Brifysgol yn nodyn 20 y datganiadau ariannol.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Cydnabod incwm

Dangosir grantiau bloc y Cyngor Cyllido yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau'n cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau'n cael eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan fo telerau'r cytundeb wedi'u bodloni.

Mae'r incwm ffioedd yn cael ei ddatgan ar sail gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt, a'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol dros y cyfnod y mae'r myfyrwyr yn astudio. Lle bo swm y ffi dysgu wedi'i leihau, trwy ddisgownt am dalu'n brydlon, dangosir yr incwm a dderbynnir yn net o'r disgownt. Cyfrifyddir am ysgoloriaethau a bwrsariau ar sail gros fel gwariant ac nid ydynt yn cael eu didynnu o'r incwm.

Cyllid Grant gan y Llywodraeth

Mae incwm rheolaidd o grantiau, contractau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn cael ei gyfrifyddu ar sail croniadau a'u cynnwys i'r graddau y bo'r contract neu'r gwasanaeth wedi'i gwblhau; mae unrhyw daliadau a dderbynnir cyn cyflawni yn cael eu cydnabod ar y Datganiad y Sefyllfa Ariannol fel atebolrwyddau.

Grantiau Cyfalaf gan y Llywodraeth

Mae grantiau un tro yn unig a dderbynnir ar gyfer caffael neu adeiladu asedau sefydlog yn cael eu trin fel grantiau cyfalaf wedi'u gohirio. Mae grantiau o'r fath yn cael eu credydu i grantiau cyfalaf wedi'u gohirio a gwneir trosglwyddiad blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd defnyddiol yr ased, ar yr un gyfradd â dibrisiant yr ased y dyfarnwyd y grant ar ei gyfer.

Cyllid Grant nad yw gan y Llywodraeth

Mae incwm rheolaidd yn deillio o grantiau, cytundebau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn cael ei gyfrifyddu ar sail perfformiad ac yn cael ei gynnwys i'r graddau y bo'r contract neu'r gwasanaeth wedi'i gwblhau; mae unrhyw daliadau a dderbynnir cyn cyflawni yn cael eu cydnabod ar y Datganiad y Sefyllfa Ariannol fel atebolrwyddau.

Cyfraniadau a Gwaddolion

Mae trafodion dim cyfnewid heb amodau yn gysylltiedig â pherfformiad yn gyfraniadau a gwaddolion. Cydnabyddir cyfraniadau a gwaddolion gyda chyfyngiadau wedi'u nodi gan y rhoddwr yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i gael yr arian. Cedwir yr incwm mewn cronfa wrth gefn gyfyngedig nes ei fod yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath, a bryd hynny mae'r incwm yn cael ei ryddhau i'r cronfeydd cyffredinol trwy drosglwyddiad cronfa wrth gefn.

Mae cyfraniadau heb gyfyngiadau'n cael eu cydnabod yn yr incwm pan fo gan y Brifysgol yr hawl i gael yr arian.

Cofnodir incwm buddsoddi ac elw gwaddolion yn yr incwm yn y flwyddyn y cyfyd, ac un ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig, yn unol â thelerau cyfyngiadau eraill sy'n berthnasol i'r gronfa waddol unigol.

Nodir pedwar prif fath o gyfraniadau a gwaddolion yn y cronfeydd wrth gefn:

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

1. Cyfraniadau wedi'u cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid i'r cyfraniad gael ei ddefnyddio at amcan penodol.
2. Gwaddolion parhaol heb eu cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion gwariadwy wedi'u cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol yn hytrach na phrynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, ac mae gan y Brifysgol y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol wedi'u cyfyngu – mae'r rhoddwr wedi nodi bod y gronfa i'w buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan penodol.

Trefniadau asiantaeth

Mae cronfeydd mae'r Brifysgol yn eu derbyn a'u dosbarthu fel asiant talu ar ran cyrff cyllido yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol yn wynebu risg isel iawn neu'n cael budd economaidd bach iawn yn gysylltiedig â'r trafodion.

Gwnaeth y Brifysgol ymrwymo i gytundeb asiantaeth o ran darparu gwasanaethau arlwygo yng nghampws Plas Coch yn ystod 2017/18, ac mae'r cytundeb yn parhau. Mae'r holl incwm a gwariant cysylltiedig wedi'i gynnwys yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Brifysgol gan fod y Brifysgol yn cadw risgiau neu wobrau'r gweithgaredd dan y cytundeb asiantaeth hwn.

Lesau a chytundeb hur brynu

Codir y costau'n gysylltiedig â lesau gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Mae lesau cyllido, sy'n trosglwyddo holl fuddion a risgiau perchnogaeth ased yn sylweddol i'r Brifysgol, yn cael eu trin fel petai'r ased wedi'i brynu'n gyfangwbl. Cynhwysir yr asedau yn yr asedau sefydlog a dangosir elfennau cyfalaf yr ymrwymadau les fel ymrwymadau dan lesau cyllid.

Mae'r eitemau rhentu les yn cael eu trin fel rhai sy'n cynnwys elfennau cyfalaf a llog. Defnyddir yr elfen gyfalaf er mwyn lleihau'r ymrwymadau sy'n ddyledus, a chodir yr elfen llog yn erbyn y cyfrif incwm a gwariant yn gyfrannol i'r elfen gyfalaf leihau sy'n weddill.

Mae asedau dan les cyllid yn cael eu dibrisio dros y cyfnod byrraf o un ai gyfnod y les neu oes economaidd defnyddiol asedau cyfatebol sy'n eiddo i'r Brifysgol.

Mae lesio asedau dan les cyllido (Stadiwm y Cae Ras a Pharc y Glowyr) yn cael eu trin fel dyledwr tymor byr a thymor hir yn cynnwys elfennau cyfalaf a llog. Defnyddir yr elfen gyfalaf er mwyn lleihau'r ymrwymadau dyledwr sy'n ddyledus, a chofnodir yr elfen llog fel incwm yn y cyfrif incwm a gwariant yn gyfrannol i'r elfen gyfalaf leihau sy'n weddill.

Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig yn unol ag ystyr Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Felly mae'n elusen yn unol ag ystyr Paragraff 1 atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac, yn unol â hynny, mae potensial i'r Brifysgol gael ei heithrio rhag Treth Gorfforaeth y Deyrnas Unedig o ran incwm neu enillion cyfalaf yn y categorïau a gwmpasir gan adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 neu

adran 256 Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y bod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Mae'r holl is-gwmnïau yn y Deyrnas Unedig yn atebol i dalu treth gorfforaethol yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw eithriadau o'r fath o ran Treth ar Werth. Mae Treth ar Werth na ellir ei adennill ar fewnbynau yn cael ei gynnwys yng nghostau mewnbynau o'r fath. Mae unrhyw Dreth ar Werth na ellir ei adfer a ddyrennir i asedau sefydlog diriaethol yn cael ei chynnwys yn eu cost.

Mae'r holl is-gwmnïau yn y Deyrnas Unedig yn atebol i Dreth ar Werth yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol arall, ac eithrio unrhyw addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan is-gwmni prifysgol sy'n ddarpariaeth addysg sy'n cael ei eithrio.

Asedau diriaethol sefydlog

Nodir asedau sefydlog ar eu cost tybiedig llai dibrisiant cronuss a cholledion diffygiant cronuss. Mae rhai eitemau penodol asedau sefydlog a gafodd eu hailbriso i brisiant teg ar neu cyn y dyddiad trosglwyddo i Ddatganiad o'r Arfer a Argymhellir: Addysg Uwch ac Addysg Bellach 2015 yn cael eu mesur ar sail cost tybiedig, sef y swm ailbriso ar ddyddiad yr ailbriso hwnnw.

Lle bo gan rannau ased sefydlog hyd oes defnyddiol gwahanol, fe'u cyfrifyddir fel eitemau ar wahân dan asedau sefydlog.

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio dros eu cyfnod oes economaidd defnyddiol disgwylidig o 50 mlynedd. Dibrisir y cae hoci dros ei oes defnyddiol disgwylidig o 10 mlynedd. Mae gwariant cyfalaf sy'n berthnasol i adeiladau sy'n bodoli eisoes yn cael ei ddibrisio dros eu hamcangyfrif oes defnyddiol o 10 mlynedd.

Lle bo adeiladau'n cael eu caffael gyda chymorth grantiau penodol gan y llywodraeth maent yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio fel uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif grant cyfalaf wedi'i ohirio ac yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd defnyddiol disgwylidig yr ased perthnasol ar sail sy'n gyson gyda'r polisi dibrisio.

Mae gosodiadau, ffitiadau ac offer sy'n costio llai na £10,000 am bob eitem unigol yn cael eu dileu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod caffael. Mae'r holl osodiadau, ffitiadau ac offer arall yn cael eu cyfalafu ar sail y gost. Mae cerbydau modur yn cael eu cyfalafu ar sail eu cost.

Mae'r holl asedau'n cael eu dibrisio dros amcangyfrif eu hoes economaidd defnyddiol, fel a ganlyn:

- Gosodiadau, ffitiadau ac offer – pum mlynedd
- Cerbydau modur – tair blynedd

Lle bo offer yn cael ei gaffael gyda chymorth grantiau penodol gan y llywodraeth mae'n cael ei gyfalafu a'i ddibrisio yn unol â'r polisi uchod, gyda'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif grant cyfalaf wedi'i ohirio ac yn cael eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd defnyddiol disgwylidig yr offer perthnasol. Polisi'r Brifysgol yw peidio ag ailbriso'r dosbarth asedau hwn.

Cynhelir adolygiad diffygiant ased sefydlog os yw digwyddiadau neu newid mewn amgylchiadau yn dangos efallai nad yw swm cyfredol yr ased sefydlog yn adferadwy.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Mae unrhyw ddiffygiant oherwydd defnyddio'r buddion economaidd yn cael eu cydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y maent yn digwydd.

Mae unrhyw ailbrisió ar i lawr nad yw oherwydd defnyddio'r buddion economaidd yn cael ei gydnabod yn y datganiad cyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr hefyd yn y cyfnod y mae'n digwydd.

Mae gwariant i sicrhau bod ased sefydlog diriaethol yn cynnal ei safon perfformiad blaenorol yn cael ei gydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y mae'n digwydd.

Mae gan y Brifysgol raglen cynnal a chadw cynlluniedig, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol.

Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau a restrir a gedwir fel asedau gwaddol ar werth y farchnad. Dangosir buddsoddiadau mewn gweithgareddau is-gwmni ac endidau heb eu rhestru ar yr isaf o un ai'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

Cynhwysir buddsoddiadau asedau cyfredol ar yr isaf o un ai'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

Stoc

Mae stoc yn cael ei ddatgan ar yr isaf o un ai'r gost neu'r gwerth net y gellir ei wireddu.

Arian parod ar hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae llifau arian yn cynnwys cynnydd neu leihad mewn arian mewn llaw, arian yn y banc ac adneuron sy'n ad-daladwy ar gais. Mae adneuron yn ad-daladwy ar gais os ydynt, yn ymarferol, ar gael cyn pen 24 awr heb gosbau. Nid oes unrhyw fuddsoddiadau eraill, waeth pa mor hylifol ydynt, yn cael eu cynnwys fel arian parod.

Mae adnoddau hylifol yn cynnwys symiau wedi eu hadneuo yn y tymor byr gyda banciau cydnabyddedig. Maent yn cynnwys unrhyw asedau o'r fath sy'n cael eu cadw fel asedau gwaddol.

Defnyddiwyd yr eithriad o'r gofyniad i baratoi datganiad llif arian ar wahân ar gyfer y Brifysgol dan Safon Adrodd Ariannol 102.

Trosi arian tramor

Mae asedau ac atebolrwyddau a nodir mewn arian tramor yn cael eu trosi i gyfrwng arian y grŵp (Sterling) ar y cyfraddau cyfnewid sy'n berthnasol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r holl wahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o hynny yn cael eu nodi yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y maent yn codi.

Offerynnau ariannol

Rheoli Risgiau

Prif offerynnau ariannol y Brifysgol yw arian parod, buddsoddiadau a benthyciadau. Amcan craidd yr offerynnau ariannol hyn yw bodloni anghenion cyllido gweithredoedd y Brifysgol. Yn ychwanegol,

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

mae gan y Brifysgol asedau ac atebolrwyddau ariannol eraill sy'n codi'n uniongyrchol o'i weithrediadau h.y. dyledwyr a chredydwyr masnach.

Rydym ni wedi asesu effaith potensial Brexit ar y sefydliad ar hyn o bryd ac yn ystyried nad oes effaith sylfaenol na risg arwyddocaol i'r busnes gweithredol.

Risg credyd

Mae risg credyd yn cyfeirio at y risg y bydd gwrthbarti'n methu â chadw at ei ymrwymadau cytundebol gan arwain at golled ariannol i'r Brifysgol.

Adolygir dyledwyr masnachol a dyledion myfyrwyr yn barhaus a gwneir darpariaeth dyled ddrwg os yw adfer y ddyled yn dod yn ansicr. Os penderfynir bod dyled yn anadferadwy mae'r ddyled yn cael ei dileu. Mae crynodiad y risg yn gyfyngedig oherwydd y nifer fawr o gwsmeriaid amrywiol ar draws y poblogaethau myfyrwyr a chwsmeriaid masnachol.

Risg hylifedd

Mae risg hylifedd yn cyfeirio at y risg na fydd y Brifysgol yn medru talu ei hymrwymadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae monitro risg hylifedd yn rheolaidd yn nodwedd hanfodol gweithgareddau rheolaeth trysorlys.

Mae rhagfynegiadau llif arian yn ffurfio rhan o broses cynllun 5 mlynedd y Brifysgol, ac fe'u hadolygir yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae risg arian tramor yn cyfeirio at y risg y gallai newid anffafriol yn y cyfraddau cyfnewid achosi colled ariannol i'r Brifysgol. Y prif arian tramor y mae'r Brifysgol yn dod i gysylltiad ag ef yw'r Ewro. Adolygir lefel gweithredu Ewros yn rheolaidd i leddfu'r risg o newidiadau cyfradd cyfnewid andwyol.

Cyfrifyddu buddion ymddeol

Y tri phrif gynllun pensiwn i staff y Brifysgol yw:

1. Y Cynllun Pensiwn Athrawon
2. Y Cynllun Blwydd-daliadau Prifysgolion
3. Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r holl gynlluniau yn gynlluniau buddion diffiniedig sy'n cael eu rheoli'n allanol ac wedi contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Fodd bynnag, ni ellir penderfynu ar elfen ariannol Prifysgol Glyndŵr yn y Cynllun Pensiwn Athrawon a'r Cynllun Blwydd-daliadau Prifysgolion ac felly mae'r rhain yn cael eu trin fel cynlluniau cost diffiniedig dan Safon Adrodd Ariannol 102.

Mae'r cyfraniadau i'r cynllun yn cael eu nodi ar y cyfrif incwm a gwariant er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogaeth gyda'r Brifysgol yn y fath fodd fel bod y cost pensiwn yn ganran cyson ar y cyfan o'r gyflogres bensiynadwy gyfredol ac yn y dyfodol. Mae amrywiadau i'r costau rheolaidd yn cael eu lledaenu ar draws hyd oes gwaith cyfartalog sy'n weddill aelodau'r cynllun, ar ôl caniatáu ar gyfer rhagor o dynnu allan.

Penderfynir ar y cyfraniadau gan actiwariaid cymwysedig ar sail prisiau bob tair blynedd, gan ddefnyddio'r dull uned dafluniedig. Ni ellir penderfynu ar elfen ariannol Prifysgol Glyndŵr yn y Cynllun Pensiwn Athrawon a'r Cynllun Blwydd-daliadau Prifysgolion ac felly mae'r rhain yn cael eu trin fel cynlluniau cost diffiniedig dan Safon Adrodd Ariannol 102.

Datganiad y prif bolisiau cyfrifyddu (parhad)

Mae gwarged neu ddiffyg y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei gydnabod fel ased neu atebolrwydd ar y Datganiad y Sefyllfa Ariannol. Cofnodir cost y rhai sy'n gwasanaethu'n gyfredol a chostau gwasanaeth blaenorol yn y costau staff.

Cyfrifir yr elfen llog ar sail diffyg diwedd y flwyddyn (atebolrwydd net) wedi'i luosi gyda'r gyfradd ddisgownt. Mae'r holl newidiadau yn y gwarged neu'r diffyg pensiwn oherwydd newidiadau mewn tybiaethau actiwaraid neu'r gwahaniaeth rhwng rhagfynegiadau actiwaraid a'r alldro go iawn yn cael eu hadrodd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cofnodir atebolrwydd yn y darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad cytunedol i gyllido diffygion yn y gorffennol yn y Cynllun Blwydd-daliadau Prifysgolion.

Darpariaethau, atebolrwyddau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol dan yr amgylchiadau isod:

- a) pan fo'r Brifysgol yn wynebu ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol
- b) ei bod yn debygol y bydd yn ofynnol trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r ymrwymiad; a
- c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ynghylch swm yr ymrwymiad.

Mae'r swm a nodir fel darpariaeth yn cael ei leihau i'r gwerth presennol lle bo gwerth amser arian yn berthnasol.

Mae atebolrwydd digwyddiadol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi ymrwymiad posibl i'r Brifysgol y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau'n unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol fel arall yn digwydd, nad yw'n gyfangwbl o dan reolaeth y Brifysgol. Mae atebolrwyddau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth wedi'i gwneud fel arall ond un ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau neu ni ellir mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Cyfyd ased digwyddiadol pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased tebygol i'r Brifysgol y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau'n unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol fel arall yn digwydd, nad yw'n gyfangwbl o dan reolaeth y Brifysgol.

Nid yw asedau ac atebolrwyddau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad y Sefyllfa Ariannol, ond fe'u datgelir trwy gyfrwng nodyn.

Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Defnyddiwyd y dyfarniadau a'r amcangyfrifon allweddol a ganlyn yn y datganiadau ariannol hyn.

- Defnyddiwyd dyfarniadau cyfrifyddu Cynllun Blwydd-daliadau Prifysgolion gan ddefnyddio pecyn modelu safonol y Cynllun Blwydd-daliadau Prifysgolion gan y Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain ar gyfradd disgownt sy'n gyson gyda chanllawiau'r Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain ac yn unol â disgwyliadau cynnydd yn y gofrestr cyflog ar gyfer grŵp y Brifysgol.
- Cyflenwyd dyfarniadau cyfrifyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan actiwariaid ein cynllun, Mercers.

- Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Brifysgol ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tai ar Chwarter Gogleddol campws Plas Coch. Mae gwaith yn cael ei wneud i drefnu gwerthu'r tir I bartion â diddordeb. Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod yr ased hwn yn cael ei ddal ar £700k yn uwch na'r elw tebygol o'r gwerthiant, ac felly mae addasiad amhariad wedi'r wneud i werth yr ased i adlewyrchu hyn.
- Amcangyfrifiwyd cronïad tâl gwyliau gan ddefnyddio methodoleg sampl uniongyrchol o adrannau (academaidd ac anacademaidd) Grŵp y Brifysgol gan ystyried y lefelau gwyliau gwirioneddol ar 31 Gorffennaf 2019 a'i gymhwyso ar sail canran.

Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd yn cael eu dynodi fel rhai cyfyngedig neu anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau sydd, trwy waddol i Grŵp y Brifysgol, yn cael eu cadw fel cronfa wedi'i chyfyngu'n barhaol y mae'n rhaid i'r Grŵp ei chadw am byth.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi penodi pwrpas penodol ac felly mae'r Grŵp wedi'i gyfyngu o ran defnydd y cronfeydd hyn.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Brifysgol a Chyfunol

Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2019

	Nodyn	B/d 31 Gorffennaf 2019		B/d 31 Gorffennaf 2018	
		Cyfunol	Y Brifysgol	Cyfunol	Y Brifysgol
		£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm					
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	1	25,911	25,911	26,018	26,018
Grantiau gan gyrrff cyllido	2	3,817	3,817	2,568	2,568
Grantiau a chytundebau ymchwil	3	143	143	519	193
Incwm arall	4	5,983	3,933	6,222	4,375
Incwm buddsoddi	5	111	111	104	104
		35,965	33,915	35,431	33,258
Cyfraniadau a gwaddolion	6	0	0	0	0
		35,965	33,915	35,431	33,258
Gwariant					
Costau staff	6	17,845	16,818	18,248	17,257
Costau pensiwn eraill	6	1,601	1,450	1,665	1,523
Pensiwn Cyflogwr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	6	2,081	2,081	2,278	2,278
Costau gwasanaeth blaenorol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	6	625	625	0	0
Treuliau gweithredol eraill	8	10,727	9,775	10,345	9,730
Dibrisiant	10	1,502	1,487	1,261	1,245
Llog a chostau cyllid eraill	7	851	851	604	604
Costau ailstrwythuro sylfaenol	6	648	643	618	603
Symud dyled rhyng-gwmni ar adeg cau is-gwmnïau	8	-	0	-	(101)
		35,880	33,730	35,019	33,139
Gwarged gweithredol cyn amhariad ac effaith pensiwn un tro'n unig		710	810	412	119
Gwarged / (Diffyg) cyn addasu am amhariad		85	185	412	119
Amhariad asedau sefydlog		(700)	(700)	0	0
		(615)	(515)	412	119
Gwarged / (Diffyg) cyn treth		(615)	(515)	412	119
Trethiant	9	-	-	-	-
		(615)	(515)	412	119
(Colled) / Enillion activaraidd o ran cynlluniau pensiwn	21	(9,710)	(9,710)	6,958	6,958
		(10,325)	(10,225)	7,370	7,077
Cynrychiolir gan:					
Incwm cynhwysfawr gwaddol am y flwyddyn		-	-	-	-
Gwariant cynhwysfawr anghyfyngedig am y flwyddyn		(10,325)	(10,225)	7,370	7,077
Priodoladwy i Grŵp y Brifysgol		(10,325)	(10,225)	7,370	7,077
Gwarged am y flwyddyn yn briodoladwy i:					
Buddiant nad yw'n fuddiant rheoli		-	-	-	-
Grŵp y Brifysgol		(615)	(515)	412	119

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant yn berthynol i weithgareddau sy'n parhau

Datganiadau Newidiadau yng Nghronfeydd wrth Gefn y Brifysgol a Chyfunol Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2019

Cyfunol			Cyfanswm ac eithrio Buddiant heb fod yn fuddiant rheoli	Cyfanswm
	<i>Cyfyngedig</i> £'000	<i>Anghyfyngedig</i> £'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Awst 2017	200	22,931	23,131	23,131
Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant	-	412	412	412
Enillion actiwaraid o ran y cynllun pensiwn	-	6,958	6,958	6,958
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	-	7,370	7,370	7,370
Balans ar 1 Awst 2018	200	30,301	30,501	30,501
Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant	-	(615)	(615)	(615)
Enillion actiwaraid o ran y cynllun pensiwn	-	(9,710)	(9,710)	(9,710)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	-	(10,325)	(10,325)	(10,325)
Balans ar 31 Gorffennaf 2019	200	19,976	20,176	20,176
Y Brifysgol				
	<i>Cyfyngedig</i> £'000	<i>Anghyfyngedig</i> £'000	Cyfanswm ac eithrio Buddiant heb fod yn fuddiant rheoli £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Awst 2017	200	23,400	23,600	23,600
(Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	-	119	119	119
Enillion actiwaraid o ran y cynllun pensiwn	-	6,958	6,958	6,958
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	-	7,077	7,077	7,077
Balans ar 1 Awst 2018	200	30,477	30,677	30,677
Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant	-	(515)	(515)	(515)
Enillion actiwaraid o ran y cynllun pensiwn	-	(9,710)	(9,710)	(9,710)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	-	(10,225)	(10,225)	(10,225)
Balans ar 31 Gorffennaf 2019	200	20,252	20,452	20,452

Datganiad y Sefyllfa Ariannol y Brifysgol a Chyfunol Ar 31 Gorffennaf

	Nodyn	2019 Cyfunol £'000	2019 Y Brifysgol £'000	2018 Cyfunol £'000	2018 Y Brifysgol £'000
Asedau anghyfredol					
Asedau sefydlog	10	64,404	63,875	53,018	52,972
		<u>64,404</u>	<u>63,875</u>	<u>53,018</u>	<u>52,972</u>
Asedau cyfredol					
Stoc	11	21	12	22	12
Masnach ac eitemau i'w derbyn: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	12	3,552	3,790	2,726	2,873
Buddsoddiadau	13	0	0	12	12
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	18	4,591	4,459	4,117	3,952
		<u>8,164</u>	<u>8,261</u>	<u>6,877</u>	<u>6,849</u>
Llai: Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	14	(5,434)	(5,210)	(4,354)	(4,123)
Asedau cyfredol net		2,730	3,051	2,523	2,726
Cyfanswm asedau llai atebolrwyddau cyfredol					
		<u>67,134</u>	<u>66,926</u>	<u>55,541</u>	<u>55,698</u>
Masnach ac eitemau i'w derbyn: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	15	1,652	1,652	1,652	1,652
Credydwy'r: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	16	(16,501)	(16,020)	(6,004)	(6,004)
Darpariaethau					
Darpariaethau pensiwn	17	(31,225)	(31,225)	(20,159)	(20,159)
Darpariaethau eraill	17	(885)	(881)	(529)	(510)
Cyfanswm asedau net		<u>20,176</u>	<u>20,452</u>	<u>30,501</u>	<u>30,677</u>
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig					
Cronfa wrth gefn incwm a gwariant - cronfa waddol	25	0	0	0	0
Cronfa wrth gefn incwm a gwariant - cronfa wrth gefn gyfyngedig		200	200	200	200
Cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig					
Cronfa wrth gefn incwm a gwariant - anghyfyngedig		19,976	20,252	30,301	30,477
Cronfa wrth gefn ailbricio		0	0	-	-
		<u>20,176</u>	<u>20,452</u>	<u>30,501</u>	<u>30,677</u>
Buddiant nad yw'n fuddiant rheoli		0	0	-	-
Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn		<u>20,176</u>	<u>20,452</u>	<u>30,501</u>	<u>30,677</u>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y corff llywodraethu ar 22 Tachwedd 2019 a'u llofnodi ar ei ran ar yr un dyddiad gan:

Maria Hinfelaar, Is-ganghellor

Maxine Penlington, Cadeirydd y Llywodraethwyr

David Elcock, Cyfarwyddwr Cyllid

Llif Arian Cyfunol ar 31 Gorffennaf

	2019	2018
	£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredol		
Gwarged am y flwyddyn	(615)	412
Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai arian parod		
Dibrisiant	1,502	1,261
(Cynnydd)/Lleihad yn y stoc	1	(5)
Lleihad mewn dyledwyr < blwyddyn	(826)	168
(Cynnydd) mewn dyledwyr > blwyddyn	0	(302)
Cynnydd/(Lleihad) mewn credydwyr < blwyddyn	(356)	708
(Lleihad) mewn credydwyr > blwyddyn	1,144	(406)
Cynnydd yn y ddarpariaeth pensiynau	1,356	987
(Lleihad) mewn darpariaethau eraill	356	(392)
Gwaredu ased sefydlog i les cyllid	0	302
Amhariad ased sefydlog	700	0
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu gyllido		
Incwm buddsoddi	(111)	(104)
Llog sy'n daladwy	363	2
Elfen llog y les cyllid	6	11
Incwm grant cyfalaf	(750)	0
Mewnllif/(all-llif) arian parod net o weithgareddau gweithredol	2,770	2,642
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi		
Derbynion grantiau cyfalaf	750	0
Tynnu adneuoan allan	12	11
Incwm buddsoddi	111	104
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog	(13,591)	(1,083)
	(12,718)	(968)
Llifau arian o weithgareddau cyllido		
Llog a dalwyd	(363)	0
Elfen llog y lesau cyllid	(6)	(11)
Benthyciadau newydd gyda sicrwydd	11,000	0
Benthyciadau heb sicrwydd	0	(271)
Ad-daliadau symiau a fenthycwyd	(125)	0
Elfen gyfalaf y les cyllid	(84)	(102)
	10,422	(384)
Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y flwyddyn	474	1,290
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	4,117	2,827
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Gorffennaf	4,591	4,117

Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon Blwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2019

	2019		2018	
	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000	Cyfunol £'000	Y Brifysgol £'000
1 Ffioedd dysgu a chontractau addysg				
Myfyrwyr cartref ac Undeb Ewropeaidd amser llawn	21,432	21,432	21,687	21,687
Myfyrwyr tramor amser llawn	1,218	1,218	851	851
Myfyrwyr rhan amser	1,881	1,881	2,202	2,202
Contractau Academaidd	1,380	1,380	1,278	1,278
	25,911	25,911	26,018	26,018
2 Grantiau gan gyrrff cyllido				
Grant rheolaidd				
Cyngor Cyllido Addysg Uwch	2,752	2,752	1,909	1,909
Grantiau penodol				
Cyllid Addysg Uwch arall	479	479	110	110
Ymchwil o Ansawdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch	251	251	215	215
Grant cyfalaf Adeiladau	333	333	334	334
Offer	2	2	-	-
	3,817	3,817	2,568	2,568
3 Grantiau a chytundebau ymchwil				
Cynghorau ymchwil	21	21	21	21
Elusennau ymchwil	64	64	99	99
